# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Diwygio Rheoliadau Porthiant (Cymru) a Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001 a Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) 1999.

Mae'r diwygiadau'n gweithredu darpariaethau a gyflwynwyd gan Benderfyniad y Comisiwn, gan Gyfarwyddeb y Senedd Ewropeaidd a chan Gyfarwyddeb y Cyngor a nodir ym mharagraff dau o'r Nodyn Esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae rhai pwyntiau wedi'u nodi yr ystyrir bod angen eu cywiro cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud. Byddai'n briodol cywiro'r rhain i gyd drwy Femorandwm Cywiriadau. Ar yr amod bod memorandwm priodol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad, nid oes dim materion yn codi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

Mae'r pwyntiau fel a ganlyn –

- Rheoliad 3(a)(ii) – dylai'r testun Saesneg o'r diffiniad a amnewidiwyd "put into circulation" gynnwys y term cyfatebol Cymraeg mewn cromfachau. Mae'n ymddangos hefyd y dylai "14" fod yn "12". Mae'r pwynt olaf hwn yn gymwys i'r ddau destun.
- Rheoliad 3(a)(iii) - dylai'r testun Saesneg o'r diffiniad a amnewidiwyd "third country" gynnwys y term cyfatebol Cymraeg mewn cromfachau.
- Rheoliad 3(c) – nid yw'r testun Cymraeg yn atgynhyrchu'r teitl a roddwyd i'r rheoliadau yn gywir.

- Rheoliad 4(1) – yn y testun Cymraeg dylai’r geiriau o fewn y dyfynodau fod yn Saesneg.
- Rheoliad 10(a) – yn y testun Cymraeg dylai’r paragraff a fewnosodir fod yn (d) yn hytrach nag (e).
- Rheoliad 12 – ymddengys bod yna gamrifo yn yr ystyr yr ymddengys nad yw’r rheoliadau canlynol y cyfeirir atynt yn y geiriau a amnewidiwyd yn bodoli: 9(1)(a); 13(3)(a), (c) a (d), (4), (6) a (7); 14(6), (7) a (9) a 15(1).
- Rheoliad 17(a) – yn y testun Cymraeg yn y cyfeiriad at Reoliadau Porthiant (Cymru) mae “Cymru” yn y lle anghywir. Hefyd, yn y ddau destun hepgorwyd “the” wrth enwi’r rheoliadau diwygio, hy. “and the”.

**Sylwadau Cyffredinol**

Tynnir sylw at y canlynol –

- Yn y teitl yn y testun Cymraeg ar dudalen 1 hepgorwyd y gromfach gau ar ôl “Gorfodi”.
- Yn rheoliad 1 yn y testun Cymraeg dylai “i” fod yn llythyren fach yn hytrach na phrif lythyren yn y llinell olaf.
- Yn rheoliad 3(a)(i) yn y testun Cymraeg camsillafwyd “sefydlaid” yn llinell 8 o’r diffiniad cyntaf.
- Er iddynt ddod i rym ar 1 Mawrth 2001, nid yw Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001 wedi’u cyhoeddi hyd yma.
- Troednodyn (f) – byddai o gymorth cynnwys y rhif Cy.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

17 Gorffennaf 2001